

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â

1. dehongli gwybodaeth
2. mabwysiadu arferion gweithio diogel ac iach
3. dethol deunyddiau, cydrannau a chyfarpar
4. tynnu gwellt cyfan neu rannol o'r strwythurau to presennol
5. paratoi, atgyweirio neu ddisodli cydrannau strwythur y to i gynnal deunyddiau gwellt

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a roddir a'r canllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach P3 dethol y nifer a'r ansawdd gofynnol o adnoddau ar gyfer y dulliau gweithio P4 cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal gyfagos P5 cydymffurfio â'r wybodaeth gontract a roddir i gyflawni'r gwaith yn effeithlon yn ôl y fanyleb ofynnol P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â'r rhaglen waith

Paratoi strwythurau to ar gyfer to gwellt

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

****Meini Prawf Perfformiad 1**** ****Dehongli gwybodaeth**** K1 y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd i adrodd a chywiro gwybodaeth ****amhriodol**** ac adnoddau ****anaddas****, a sut y cânt eu gweithredu K2 y mathau o ****wybodaeth****, eu ffynhonnell a sut y cânt eu dehongli K3 y gweithdrefnau sefydliadol i ddatrys ****problemau**** â'r ****wybodaeth**** a pham ei fod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn

****Meini Prawf Perfformiad 2**** ****Arferion gwaith diogel**** K4 lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithredwyr ei chael o ****wybodaeth**** ar gyfer ****deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol**** a sut y caiff ei gweithredu K5 y mathau o ****ddiffoddwyr tân**** a sut a phryd y cânt eu defnyddio K6 sut y dylid ymateb i ****argyfyngau**** a phwy ddylai ymateb K7 y ****gweithdrefnau diogelwch**** sefydliadol ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol K8 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer riportio damweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad K9 pam, pryd a sut ****y dylid defnyddio**** ****cyfarpar rheoli**** iechyd a diogelwch

****Meini Prawf Perfformiad 3**** ****Dethol adnoddau**** K10 y nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r ****adnoddau**** a sut y dylid cywiro diffygion K11 sut y dylid defnyddio'r ****adnoddau**** a sut yr adroddir am unrhyw ****broblemau**** sy'n gysylltiedig â'r ****adnoddau**** K12 y gweithdrefnau sefydliadol i ddethol ****adnoddau****, pam y cawsant eu datblygu a sut y cânt eu defnyddio K13 y ****peryglon**** sy'n gysylltiedig â'r ****adnoddau**** a'r ****dulliau gweithio**** a sut y cânt eu goresgyn

****Meini Prawf Perfformiad 4**** ****Lleihau'r risg o ddifrod**** K14 sut i ****ddiogelu gwaith**** rhag difrod a phwrpas diogelu K15 pam y dylid ****gwaredu gwastraff**** yn ddiogel a sut y caiff ei gyflawni

****Meini Prawf Perfformiad 5**** ****Diwallu manyleb y contract**** K16 sut mae ****dulliau gweithio****, i ddiwallu'r fanyleb, yn cael eu cyflawni a sut y dylid adrodd am ****broblemau**** K17 sut mae gwaith ****cynnal a chadw**** offer a chyfarpar yn cael ei wneud

****Meini Prawf Perfformiad 6**** ****Amser wedi'i ddyrannu**** K18 beth yw'r ****rhaglen**** i'r gwaith gael ei wneud yn yr amser amcangyfrifedig, dyranedig a pham y dylid cadw at derfynau amser

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Meini Prawf Perfformiad 1

1 dehongli lluniadau, manylebau, datganiadau dull, asesiadau risg, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

Meini Prawf Perfformiad 2

2 osgoi risg trwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir sy'n ymwneud â'r dilynol

- 2.1 dulliau gweithio
- 2.2 defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch
- 2.3 defnydd diogel o gyfarpar mynediad
- 2.4 defnyddio a storio deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- 2.5 risgiau penodol i iechyd

Meini Prawf Perfformiad 3

3 dethol adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

- 3.1 deunyddiau, cydrannau a ffitiadau
- 3.2 offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 4

4 diogelu'r gwaith a'r ardal gyfagos rhag difrod

- 5 lleihau difrod a chynnal lle gweithio glân
- 6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Meini Prawf Perfformiad 5

7 arddangos sgiliau gwaith i fesur, amlinellu, tynnu ac atgyweirio

- 8 defnyddio a chynnal offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol
- 9 paratoi ar gyfer to gwellt trwy wneud y dilynol hyd at gyfarwyddiadau gweithio penodol
 - 9.1 tynnu'r gwellt presennol (llawn ac/neu rannol)
 - 9.2 atgyfnerthu ac unioni strwythur y to
 - 9.3 glanhau a thrin strwythur y to

Meini Prawf Perfformiad 6

10 cwblhau eich gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig, dyranedig i ddiwallu anghenion galwedigaethau

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwaredu gwastraff

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau sefydliadol, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

*

*Argyfyngau**

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ymwneud â

2.1 thanau, colledion, anafiadau

2.2 argyfyngau'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

Diffoddwyr Tân

3 dŵr, CO₂, ewyn, powdr a'u defnyddiau

*

*Peryglon**

4 y rhai hynny a nodir trwy asesiad risg, dull gweithio, gwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Offer rheoli iechyd a diogelwch

5 a nodir gan egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith ac amgylchedd gwaith cyffredinol

5.1 mesurau amddiffynnol ar y cyd

5.2 offer diogelu personol (PPE)

5.3 offer diogelu anadlol (RPE)

5.4 gwyntyllu egsôst lleol (LEV)

*

*Gwybodaeth**

6 lluniadau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a rheoliadau cyfredol sy'n rheoli adeiladau ac sy'n gysylltiedig â

Paratoi strwythurau to ar gyfer to gwellt

chadwraeth hanesyddol a pharatoi strwythurau to ar gyfer to gwellt

*

*Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol**

7 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr ynghylch damweiniau a pheryglon iechyd posibl wrth weithio yn y gweithle, ar uchder, mewn lleoedd cyfyng, ag offer a chyfarpar, â deunyddiau a sylweddau, â symud/storio deunyddiau a thrwy trin â llaw

*

*Cynnal a Chadw**

8 gofal gweithredol o offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol

*

*Dulliau gweithio**

9 cymhwyso gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r dull/maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i:

9.1 tynnu gwellt presennol (llawn neu rannol)

9.2 asesu cyfanrwydd strwythurau to

9.3 nodi meysydd sydd angen paratoi, glanhau, trin, atgyweirio, amnewid ac atgyfnerthu

9.4 achub a storio cydrannau a deunyddiau y gellir eu hailddefnyddio

9.5 amddiffyn deunyddiau amnewid ac sydd wedi'u hachub

9.6 atgyfnerthu ac unioni strwythurau to

9.7 paratoi, trin a gosod sylweddau a thoddiadau glanhau a thrin

9.8 cadarnhau y bydd y strwythur a baratowyd yn cynnal trwch a dyfnder y deunyddiau gwellt arfaethedig i ddarparu'r perfformiad tymor hir gorau posibl

9.9 gwaith ar adeiladau o arwyddocâd hanesyddol

9.10 gweithredu mesurau atal tân

9.11 defnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar

9.12 gweithio ar uchder

9.13 defnyddio cyfarpar mynediad

10 gwaith tîm a chyfathrebu

11 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â pharatoi strwythurau to ar gyfer to gwellt

Paratoi strwythurau to ar gyfer to gwellt

*

*Problemau**

12 y rhai hynny sy'n deillio o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

12.1 eich awdurdod eich hun i unioni

12.2 gweithdrefnau adrodd sefydliadol

*

*Rhaglen**

13 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

14 gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

**

*Diogelu gwaith***

15 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

*

*Adnoddau**

16 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar sy'n ymwneud â mathau, nifer, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd safonol ac/neu arbenigol:

16.1 pren, gosodiadau

16.2 cyfryngau glanhau a thriniaethau pren

16.3 offer llaw ac/neu offer pŵer cludadwy a chyfarpar

17 dulliau cyfrifo nifer, hyd, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull/gweithdrefn i baratoi strwythurau to ar gyfer to gwellt

*

*Gweithdrefnau diogelwch**

18 safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

Paratoi strwythurau to ar gyfer to gwellt

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	31 Hyd 2012
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Hyd 2017
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR116
Galwedigaethau perthnasol	Towyr, Teilsywyr Toeau a Gweithwyr Llechi
Cyfes/Set	Sgiliau Treftadaeth (Adeiladu), Galwedigaethau Toi (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Trin-toeau; Atgyfnerthu-toeau; Gwellt; Töwr Toeau Gwellt